**P-05-1099 Peidiwch â chau'r Sector Lletygarwch (Tafarndai, Bwytai, Caffis) heb ddangos tystiolaeth wyddonol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Nathan Gill, ar ôl casglu cyfanswm o 25,301 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae sector lletygarwch Cymru wedi dangos ei fod yn gallu cydymffurfio'n effeithiol â'r rheoliadau COVID llym, gyda thafarndai, barrau, bwytai, caffis a llawer o leoliadau eraill yn dangos eu bod yn gallu cadw pellter cymdeithasol. Mae lletygarwch eisoes wedi addasu i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol a mesurau hylendid ychwanegol, yn ogystal â system profi ac olrhain y llywodraeth.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Mae tystiolaeth gan y llywodraeth a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai dim ond rhwng 1% a 3% o heintiadau coronafeirws newydd sy'n digwydd mewn tafarndai, barrau a bwytai. Oni bai bod Llywodraeth Cymru yn fodlon cyhoeddi tystiolaeth sy'n dangos bod y risg o drosglwyddo yn uwch mewn lleoliadau lletygarwch, yna byddai'n annheg cosbi'r diwydiant unwaith eto drwy ei gau drwy gydol mis Rhagfyr.

Mae tafarndai, a'r diwydiant lletygarwch yn gyffredinol, ymhlith y rhai y mae'r cyfnod clo wedi effeithio arnynt fwyaf. Mae mwy na thraean o fusnesau lletygarwch yn dweud mai prin yw ei hyder, neu fod ganddynt ddim hyder o gwbl, y byddant yn goroesi'r tri mis nesaf, yn ôl data a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gynharach y mis hwn.

Mae'r flwyddyn hon wedi gadael y sector lletygarwch ar ymyl y dibyn, gyda llawer ohono ar gau drwy gydol 2020 yn sgil y pandemig. Mae masnach y Nadolig yn hanfodol er mwyn i fusnesau aros ar agor, ac achub llawer rhag gorfod cau am byth oherwydd colli enillion.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ynys Môn
- Gogledd Cymru